Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Measles and the MMR vaccine
# A guide for visitors to prison

**There have been cases of measles in Wales. Measles can make some people, such as pregnant women, people with a weak immune system and babies, very unwell.**

The best protection against measles is **two doses** of the safe MMR (measles, mumps and rubella) vaccine.

- Measles is an infection caused by a virus. It spreads quickly between people who are not vaccinated.
- You can catch measles by touching a person with measles or by breathing in the virus when they cough or sneeze.
- If you or your child has not had two doses of the MMR vaccine, you can get them **free** from your GP surgery.
- If you are not sure if you or your child has had two doses of the vaccine, ask your GP surgery - it's not too late.
- If you or your child has symptoms of measles, **stay at home** and phone your GP surgery or contact NHS 111 Wales by **phoning 111**. It is free to call this number. **Stay away** from your GP surgery and A&E - you could spread the illness to others.
- You can look on our website for more information: **phw.nhs.wales/MMRvaccines**

**Make sure you are up to date with your MMR vaccinations.**

## Measles symptoms



| Rash | Temperature | Runny nose | Red eyes | Cough |
| --- | --- | --- | --- | --- |

Crystal Mark 24270
Clarity approved by Plain English Campaign

Version 1 | July 2024
© Public Health Wales NHS Trust with acknowledgment to the UK Health Security Agency
ISBN: 978-1-83766-403-0

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Y frech goch a'r brechlyn MMR
## Canllaw i ymwelwyr â'r carchar


**Mae achosion o'r frech goch wedi bod yng Nghymru. Gall y frech goch wneud rhai pobl, fel menywod beichiog, pobl â system imiwnedd wan a babanod, yn sâl iawn.**

Yr amddiffyniad gorau yn erbyn y frech goch yw **dau ddos** o'r brechlyn MMR diogel (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela).

- Haint a achosir gan feirws yw'r frech goch. Mae'n lledaenu'n gyflym rhwng pobl nad ydynt wedi'u brechu.
- Gallwch ddal yfrech goch trwy gyffwrdd â pherson â'r frech goch neu drwy anadlu'r feirws i mewn pan fydd yn pesychu neu disian.
- Os nad ydych chi neu'ch plentyn wedi cael dau ddos o'r brechlyn MMR, gallwch eu cael **am ddim** gan eich practis meddyg teulu.
- Os nad ydych yn siŵr a ydych chi neu'ch plentyn wedi cael dau ddos o'r brechlyn, gofynnwch i'ch practis meddyg teulu - nid yw'n rhy hwyr.
- Os oes gennych chi neu'ch plentyn symptomau'r frech goch, **arhoswch gartref** a ffoniwch eich practis meddyg teulu neu cysylltwch â GIG 111 Cymru drwy **ffonio 111**. Mae'n rhad ac am ddim i ffonio'r rhif hwn. **Arhoswch i ffwrdd** o'ch practis meddyg teulu a'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys - gallech ledaenu'r salwch i eraill.
- Gallwch edrych ar ein gwefan am ragor o wybodaeth: **icc.gig.cymru/brechlynMMR**

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael eich brechiadau MMR.**

## Symptomau'r frech goch

|  |  |  |  |  |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Brech** | **Tymheredd** | **Trwyn yn rhedeg** | **Llygaid coch** | **Peswch** |

Fersiwn 1 | Gorffennaf 2024
© Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda chydnabyddiaeth i Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU
ISBN: 978-1-83766-403-0